



<b>Enw'r Claf</b>	
<b>Rhif GIG</b>	
<b>Practis</b>	<b>Meddygfa Waunfawr</b>

Cyfrifoldebau a Hawliau – Ymrwymiad y Claf

<p>Eich Hawliau</p> <p><b>Mae gan y Practis a'i gyflogeion ddyletswydd gofal tuag ataf i fel claf a byddant bob amser yn ceisio darparu gwasanaethau i ddiwallu fy anghenion am ofal iechyd a thriniaeth sylfaenol.</b></p> <p><b>Mae'r Practis a'i gyflogeion yn ceisio darparu gwasanaethau iechyd sy'n sympathetig ac ymatebol i'm hanghenion unigol oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael.</b></p> <p><b>Mae'r Practis a'i gyflogeion eisiau cyflwyno gofal iechyd a thriniaeth effeithiol a phriodol i mi.</b></p> <p><b>Mae'r Practis yn disgwyl i'w holl gyflogeion ymdrin â mi â chwarteisi a pharch.</b></p> <p>Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y bydd y practis <b>yn cyfyngu ar fy hawliau i ofal, neu'n tynnu'r hawliau yn ôl</b>, pan fyddaf wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o fy nghyfrifoldebau mewn modd y bernir ei fod yn annerbyniol.</p> <p>Noder mai drwy apwyntiad yn unig y caiff cleifion eu gweld; <b>mae gwybodaeth bellach i'w gweld yn nhaflen y practis.</b></p>	<p>Eich Cyfrifoldebau</p> <p>Ni fyddaf yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd y gellir ei hystyried yn dreisgar, bygythiol nac ymosodol.</p> <p>(Mae digwyddiad treisgar yn golygu unrhyw <b>weithred o drais yn erbyn unrhyw aelod o'r practis</b> neu staff cysylltiedig neu gleifion eraill drwy gamdriniaeth, bygythiadau, trais neu ymosodiad <b>sy'n achosi iddynt bryderu am eu diogelwch</b>).</p> <p>Byddaf yn ymdrin â staff y GIG, cyd-gleifion, gofalwyr ac ymwelwyr yn foesgar a pharchus bob amser.</p> <p>Ni fyddaf yn yfed alcohol, yn ysmegu nac yn cymryd unrhyw fath o feddyginiaeth na chyffuriau di-<b>bresgripsiwn tra ar eiddo'r feddygfa.</b></p> <p><b>Derbyniaf a deallaf fod yn rhaid i'r practis ddarparu amgylchedd diogel i'w staff a gofalu am eu hiechyd a'u diogelwch.</b></p> <p>Deallaf, petawn yn dangos ymddygiad ymosodol, bygythiol neu dreisgar tuag at unrhyw aelod o staff a gyflogir yn y feddygfa <b>hon neu'n achosi i unrhyw aelod o staff neu'r cyhoedd bryderu am eu diogelwch eu hunain</b>, y caf fy nhynnu oddi ar restr y practis a chaiff y mater ei gyfeirio at yr heddlu.</p> <p>Deallaf fod angen i mi ymwneud â gwasanaethau y caf fy nghyfeirio atynt gan y Practis, a phe na bydd modd i mi ymwneud â hwy, <b>byddaf yn cysylltu â'r Practis ymlaen llawn i'w hysbysu.</b></p>
---	--

Llofnod Meddyg Teulu .....	Llofnod Claf .....
<b>Printio'r Enw:</b> .....	<b>Printio'r Enw:</b> .....
Dyddiad: .....	Dyddiad: .....

